

Bondio metelig ac adeiledd haearn

Amcanion dysgu

- 1 Disgrifio'r bondio mewn haearn.
- 2 Egluro priodweddau haearn drwy ddefnyddio syniadau am fondio.

Cywir neu anghywir?

Mae'r datganiadau hyn yn cyfeirio at adeiledd a phriodweddau haearn.

Darllenwch bob datganiad yn ofalus. Ticiwch un o'r blychau i ddangos a ydych chi'n meddwl ei fod yn gywir neu'n anghywir.

Rhif	Datganiad	Cywir neu anghywir?	Ateb y grŵp
1	Mae gan haearn fath o fondio o'r enw bondio metelig.		
2	Mae adeiledd haearn yn enghraifft o foleciwl enfawr.		
3	Mae ïonau positif yn adeiledd haearn.		
4	Mae'r atomau mewn haearn yn cael eu dal at ei gilydd gan fondiau ïonig.		
5	Yn adeiledd haearn, mae rhai electronau yn gallu symud o gwmpas y solid.		
6	Os caiff haearn ei wresogi i dymheredd uchel iawn, bydd yn troi'n nwy.		
7	Mae haearn yn gallu dargludo trydan oherwydd bod atomau haearn yn gallu llithro dros eu cymdogion a symud drwy'r solid.		
8	Mae haearn yn dargludo trydan oherwydd ei fod yn cynnwys 'môr' o electronau.		
9	Mae haearn yn ymledu pan gaiff ei wresogi oherwydd bod atomau haearn yn mynd yn fwy.		
10	Mae haearn yn fetel llwyd ariannaidd oherwydd bod atomau haearn yn llwyd ariannaidd.		